# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0260(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2005

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod Hawl i Holi ar 8 Mawrth, dywedoch mewn cwestiwn atodol i OAQ0260 bod y gyllideb ar gyfer y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod y Gymdogaeth o dan fygythiad ar hyn o bryd, a gofynnoch i'r Prif Weinidog eich sicrhau y bydd y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth pwysig hwn yn cael ei sicrhau.

Sefydliad wedi ei ariannu'n fasnachol fu'r gymdeithas genedlaethol erioed. Deallaf fod arian y Swyddfa Gartref ar gyfer y Gymdeithas wedi cael ei atal ar ôl i adolygiad archwilio ddangos diffyg ariannol sy'n awgrymu na fyddai'n addas darparu rhagor o arian cyhoeddus. Rwy'n gwybod bod yr Ysgrifennydd Cartref yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i gefnogi'r Gymdeithas fel rhwydwaith o grwpiau cymunedol, wedi'u seilio ar bartneriaethau lleol, sy'n gweithredu ar draws y wlad, a'i fod yn cydnabod eu cyfraniad sylweddol at ddiogelwch cymunedol. Mae cryn dipyn o gyngor ymarferol ar gael i grwpiau unigol ar wefan y Swyddfa Gartref.

O ran ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i waith y Gymdeithas, rydym yn gwerthfawrogi'r rhan bwysig y mae pobl leol yn ei chwarae yn y frwydr yn erbyn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau. Yn dilyn cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Gymdeithas yn 2003, ystyriais sut gallai'r Cynulliad gefnogi a hyrwyddo ei gwaith yng Nghymru. Yn fy marn i, y ffordd orau o wireddu potensial y Gymdeithas yw trwy lefel uwch o gydweithio rhwng grwpiau lleol; yr heddlu a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, sef y cyfrwng gorau i gyflawni hyn ar lefel leol. Bydd trefniadau o'r fath yn caniatáu i wahanol grwpiau gael mynediad i ffrydiau ariannu sy'n cael eu trefnu gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae fy swyddogion yn yr Uned Diogelwch Cymunedol yn gwneud popeth yn eu gallu i hyrwyddo'r bartneriaeth hon.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0253(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, Y Prif Weinidog, 8 Mawrth 2005

**At Michael German:**

Ysgrifennaf, fel yr addewais yn ystod y drafodaeth a gynhaliwyd ar 8 Mawrth yn y Cyfarfod Llawn, i ateb eich ymholiad ynghylch yr effaith a gaiff cronfeydd strwythurol yr UE ar ddiwylliant a'r celfyddydau yn y dyfodol, o gofio cyllideb arfaethedig Comisiwn yr UE ar gyfer y cyfnod 2006-13.

Mae fy swyddogion wedi adolygu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd fis Gorffennaf diwethaf, a gallaf gadarnhau bod sôn am weithgareddau diwylliannol o dan ddau o'r rhaglenni cyllido a gynigwyd ar gyfer y dyfodol.

Mae cymorth ar gyfer gweithgareddau diwylliannol yn ymddangos o dan y rhaglenni cydgyfeirio a tiriogaethol arfaethedig a fyddai'n cymryd lle'r rhaglen Amcan 1 presennol, a'r pedwar menter cymunedol. O fewn cynigion Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, dylid cysylltu cymorth diwylliannol, lle y caiff ei nodi, â gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r prif agendâu.

O dan y rhaglen gydgyfeirio arfaethedig, mae testun y rheoliadau yn nodi y dylai Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop gefnogi:

‘Tourism, including promotion of natural and cultural assets as potential for the development of sustainable tourism, protection and enhancement of the cultural heritage in support of economic development, aid to improve the supply of tourism services through new higher value added services.’

Mae’n bosib i weithgareddau celf cyhoeddus gael arian os gall prosiectau arfaethedig ddangos eu bod yn bodloni’r gofynion sydd mewn unrhyw reoliadau gorffenedig.

O dan yr amcan ‘cydweithio tiriogaethol Ewropeaidd’ mae’r testun yn dweud y dylai Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ganolbwyntio ei chymorth ariannol ar:

‘encouraging entrepreneurship and, in particular, the development of SMEs, tourism, culture, and cross-border trade, and by developing collaboration, capacity and joint use of infrastructures in particular in sectors such as health, culture and education.’

Ar hyn o bryd nid yw’n amlwg i ba raddau y bydd gweithgareddau yn canolbwyntio ar y sector ddiwylliannol, gan fod y rheoliadau – fel y gwyddoch – yn dal i gael eu trafod gan aelod-wladwriaethau’r UE.  Fel y dywedais yn fy ateb i’ch cwestiwn yn ystod y ddadl, gobeithier y gellir dod i gytundeb yn ystod llywyddiaeth Lwcsembwrg er mwyn sicrhau cysondeb.  Byddai hyn hefyd yn rhoi cyfle i brosiectau diwylliannol a chelfyddydol ddatblygu cyn i unrhyw gyfnod rhaglennu newydd ddechrau.